# Ordinhad 25
# Cyflwyno teitl Emeritws

**Corff Cymeradwyo:** y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 10 Hydref 2019

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt ar gyfer y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 622048

**Statws y polisi:** Diwygiedig

**Fersiwn:** 3.1

**Dyddiad adolygiad diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

**ORDINHAD 25**
**CYFLWYNO TEITL EMERITWS**

1. Gall y Brifysgol, fel y gwêl yn dda, gyflwyno teitl Emeritws y Brifysgol i staff academaidd pan fyddant yn ymddeol o Brifysgol Aberystwyth.

2. At ddibenion yr Ordinhad hwn, ystyr 'ymddeol' yw'r adeg pan fydd aelodau o'r staff yn ymddiswyddo o'u cyflogaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn dechrau derbyn incwm o gynllun pensiwn galwedigaethol eu cyflogwr diwethaf neu eu prif gyflogwr.

3. Defnyddir teitl Emeritws i roi cydnabyddiaeth a bri i gyn-aelodau o'r staff academaidd a wnaeth gyfraniad eithriadol a pharhaus i academia ac a fyddai efallai'n awyddus i ddal i wneud cyfraniad i waith academaidd y sefydliad. Cyfraniad *pro bono* fyddai hwnnw, heb unrhyw dâl amdano.

4. Gall teitl Emeritws gael ei gyflwyno gan yr Is-Ganghellor i staff academaidd pan fyddant yn ymddeol. Bydd enwau'r sawl sydd wedi cael teitl Emeritws yn cael eu rhoi er gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio.

5. Ymhen tri mis o'u dyddiad 'ymddeol' arfaethedig, bydd y sawl sy'n awyddus i gael eu hystyried am deitl Emeritws yn cyflwyno cais i'r adran Adnoddau Dynol a fydd, ar ôl gofyn i'r Gyfadran berthnasol roi ei sylwadau ar bob cais, yn cyflwyno'r holl geisiadau i gael eu hystyried gan yr Is-Ganghellor. Gall Cyfadran hefyd gynnig unigolion i'w hystyried drwy ddilyn yr un drefn. Mae'n rhaid i bob cais egluro sut mae'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf a roddir ym mhwynt 3.

6. Bydd pob cyflwyniad i'w ystyried hefyd yn cynnwys *Curriculum Vitae* ar yr aelod o staff academaidd dan sylw yn ogystal â datganiad clir am yr hyn a ddisgwylir gan yr unigolyn o ran yr hyn y bydd yn ei gyfrannu at waith y Gyfadran a/neu'r Brifysgol yn y dyfodol.

7. Bydd unrhyw unigolion y cyflwynir teitl Emeritws iddynt ac sydd wedi hynny yn derbyn cyflogaeth o sylwedd mewn sefydliad academaidd arall yn ildio'r hawl i'r teitl Emeritws. Bydd unigolion sy'n cael eu hailgyflogi ym Mhrifysgol Aberystwyth ar ôl iddynt ymddeol yn ildio'r hawl i'r teitl Emeritws dros dro nes y daw eu cyflogaeth yn y Brifysgol i ben, ac ar yr adeg honno fe ellir ailymgeisio am y teitl.